





"Mae'r pwnc yn ddiddorol iawn ac yn edrych ar amrywiaeth o bethau gwahanol fel yr hinsawdd a llosgfynyddoedd. Mae'r gwaith cwrs yn rhoi rhyddid i chi ymchwilio maes o'ch dewis chi."

Ifan Jones

# Daearyddiaeth

## Pam astudio Daearyddiaeth?

*"Geography is the subject which holds the key to our future"* - Michael Palin

Mae'n gyfnod pwysig i astudio Daearyddiaeth. Mae'r cwrs Lefel A yn cynnwys materion cyfoes fel mudo byd-eang, peryglon naturiol, newid hinsawdd, materion cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae ein myfyrwyr yn mwynhau'r ystod o themâu sydd yn ein helpu i ddeall mwy ar y byd o'n cwmpas a dysgu trwy astudiaethau achos o amrywiaeth o wledydd ledled y byd.

## Gofynion y cwrs

Fe fyddwch yn sicr o gael lle ar y cwrs gyda gradd C neu uwch mewn TGAU Daearyddiaeth. Os nad ydych wedi cael gradd C, dewch am sgwrs.

## Manylion y cwrs a'r dulliau asesu

### UG/AS (2 uned)

**Uned 1: Tirweddau Newidiol** (Arholiad 2 awr, 24% o'r cymhwyster)
Bydd y dysgwyr yn astudio prosesau a thirweddau arfordirol a pheryglon tectonig sef daeargrynfeydd ac echdoriadau llosgfynyddoedd. Bydd cyfle am ddiwrnod gwaith maes yn astudio'r prosesau sy'n digwydd ar arfordir Ynys Môn.

**Uned 2: Lleoedd Newidiol** (Arholiad 1 awr 30 munud, 16% o'r cymhwyster)
Bydd y dysgwyr yn astudio daearyddiaeth dynol yn yr uned yma drwy astudio ein ardaloedd gwledig lleol ac ardaloedd trefol cyferbyniol. Bydd cyfle am ddiwrnod gwaith maes yn astudio ansawdd bywyd yn Ynys Môn. Bydd cwestiynau am y ddau brofiad gwaith maes yn y papur arholiad yma.

### Uwch / A Level (3 uned)

**Uned 3: Systemau Byd-Eang a Llywodraethiant Byd-Eang**
(Arholiad 2 awr, 24% o'r cymhwyster)
Astudiaeth o gylchredau dŵr a charbon fel uned Daearyddiaeth ffisegol ac uned am ddwy her byd-eang cyfredol sef mudo a rheolaeth o'r cefnoforoedd. Mae cwestiwn estynedig synoptig fel rhan o'r papur yma hefyd, ar un o sialensiau'r 21ain Ganrif, sydd yn disgwyl i'r dysgwyr wneud defnydd o'u dealltwriaeth cyffredinol o'r pwnc.

**Uned 4: Themâu Cyfoes Mewn Daearyddiaeth**
(Arholiad 2 awr, 16% o'r cymhwyster)
Astudiaeth o un o'r themau mwyaf cyfoes a phwysicaf Daearyddol sef Sialensiau a Dilemâu Egni sydd yn edrych ar newid hinsawdd a sut i'w ddatrys, ac uned am dywydd a hinsawdd sydd yn edrych ar amrywiaeth o hinsoddau o amgylch y byd. Bydd y dysgwyr yn ateb cwestiwn estynedig ar beryglon tectonig yma hefyd sydd yn seiliedig ar yr un cynnwys ag Uned 1.

**Uned 5: Ymchwiliad Annibynnol** (Gwaith Cwrs, 20% o'r cymhwyster)
Cyfle i'r dysgwyr ddewis thema sy'n gysylltiedig ag unrhyw thema yn y cwrs Lefel A. Disgwylir i'r dysgwyr gasglu data cynradd ac eilaidd a cynhyrchu adroddiad ysgrifenedig o 3000-4000 o eiriau.

## Sgiliau a ddatblygir a swyddi posibl

Yn ogystal â magu dealltwriaeth am y byd o'n cwmpas mae'n bwnc sydd yn datblygu eich sgiliau gwerthuso, meddwl yn gritigol, ymchwilio annibynnol a gweithio fel rhan o dîm e.e. ar ddyddiau gwaith maes. Mae'n datblygu sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu, a sgiliau ymarferol sydd yn berthnasol ar gyfer amrywiaeth eang o swyddi. Mae swyddi daearyddol yn cynnwys cartograffwyr, cynllunio a tirfesur, rheolwyr amgylcheddol, gweithwyr cymorth rhyngwaldol, athrawon, swyddog twristiaeth neu gynllunydd trafnidiaeth.